



**Gweithio gyda'n gilydd i adeiladu
Canolfan Ganser Felindre newydd
ar gyfer de-ddwyrain Cymru**



**Sefydlwyd Canolfan Ganser Felindre
yn 1968, ac mae ganddi hanes balch
o ddarparu gwasanaethau, triniaeth
a gofal cancer trydyddol rhagorol
nad ydynt yn rhai llawfeddygol
ar gyfer yr 1.5 miliwn o bobl
sy'n byw yn ne-ddwyrain Cymru.**

Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Prifysgol Felindre sy'n rhedeg Gwasanaeth Canser Felindre ac mae'n elfen allweddol o rwydwaith gwasanaethau canser de-ddwyrain Cymru rydym yn ei ddarparu mewn partneriaeth â'n cydweithwyr o'r byrddau iechyd rhanbarthol.

Rydym i gyd yn gweithio gyda'n gilydd i wella gwasanaethau canser ar draws y rhanbarth i ateb galw yn y dyfodol, i wella profiad cleifion a chanlyniadau cleifion. Mae'n rhaid i ni wneud hyn oherwydd bydd un o bob dau berson yn datblygu canser rhywbryd yn eu bywyd, yn ôl y rhagolwg mwyaf cywir hyd yma.¹



Un o'n datblygiadau allweddol yw Canolfan Ganser Felindre newydd yn yr Eglwys Newydd a fydd yn croesawu ei chlaf cyntaf yn 2025. Bydd y ganolfan ganser newydd yn cefnogi'r rhanbarth trwy ddarparu adeiladau, cyfleusterau ac offer o safon uchel i alluogi triniaeth canser, gofal a chefnogaeth i gleifion am ddegawdau i ddod. Bydd ganddi'r gallu i drin 8,500 o gleifion newydd a 160,000 o apwyntiadau cleifion y flwyddyn.

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y ganolfan ganser newydd ym mis Mawrth 2021. Bydd y ganolfan ganser newydd yn cael ei datblygu mewn partneriaeth â chleifion, staff, y gymuned leol a phartneriaid a Chonsortium Acorn.

Mae gennym hanes balch a dyfodol cyffrous.



¹ British Journal of Cancer

Dechrau gwaith ar Ganolfan Ganser Felindre newydd – cychwyn y Gwaith Galluogi

Beth yw'r gwaith galluogi?

Cam cyntaf y gwaith sy'n gysylltiedig â Chanolfan Ganser Felindre newydd yw'r gwaith galluogi. Mae'r gwaith galluogi'n paratoi'r safle ar gyfer adeiladu Canolfan Ganser Felindre newydd. Y gweithgareddau allweddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith yw:

- sefydlu ffyrdd dros dro o dir Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ysbyty'r Eglwys Newydd i'r safle. Bydd hyn yn ein galluogi i ddarparu'r deunyddiau allweddol ar y safle;
- sefydlu ffordd ar y safle ei hun i ganiatáu cludiant deunyddiau ar y safle i gefnogi'r gwaith o adeiladu'r bont tuag at Asda. Bydd y ffordd hon yn teithio o ran ddeheuol y safle wrth y llwybr troed mabwysiedig, ar hyd perimedr y tir ac yn parhau tua'r gogledd, lle bydd ffordd yn cwrdd â'r bont newydd;
- cysylltu cyfleustodau i fwydo Canolfan Ganser Felindre newydd, ac
- adeiladu'r bont o ben gogleddol y ffordd ar y safle dros hen doriad y rheilffordd at Asda, gan ddarparu'r cyswllt ar gyfer cludiant i'r Ganolfan Ganser Felindre newydd.

Mae'r holl ganiatâd cynllunio angenrheidiol mewn lle gyda Chyngor Caerdydd er mwyn i ni allu cychwyn ar y gwaith.

Bydd rhai camau o'r gwaith galluogi'n effeithio'n uniongyrchol ar fynediad y cyhoedd at Hawliau Tramwy Cyhoeddus (PROW). Pan fydd hyn yn digwydd, byddwn yn dargyfeirio PROWs sefydledig

ar ôl derbyn y caniatâd angenrheidiol gan Gyngor Caerdydd er mwyn caniatáu i elfennau o'r gwaith ddigwydd. Bydd pob dargyfeiriad yn cael ei gyfathrebu'n glir a'i arwyddo'n glir.






Gall rhai elfennau o'r gwaith ofyn am newidiadau i'r trefniadau rheoli traffig presennol. Pan fydd hyn yn digwydd, byddwn yn cyfathrebu'r newidiadau arfaethedig ymlaen llaw.

Bydd cam cyntaf y gwaith, o fis Awst drwy'r hydref, yn cynnwys sefydlu ffordd fynediad dros dro ar gyfer cerbydau adeiladu yn safle ysbyty'r

Eglwys Newydd ac yna datblygu sylfeini ar gyfer y ffordd fynediad a'r bont.

Efallai y bydd y wybodaeth ar y map isod yn ddefnyddiol.



Oes gennych chi'r caniatâd i gyflawni'r gwaith hwn?

Mae'r gwaith wedi ei gymeradwyo gan Gyngor Caerdydd ac mae'r trwyddedau a'r hawliau i gyd yn eu lle. Rydym yn gweithio'n agos gyda'n holl bartneriaid allweddol gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Cyngor Caerdydd a Chyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud yn ddiogel ac yn unol ag amodau'r hawliau. Bydd yr holl waith yn cael ei oruchwyllo gan ecolegydd a'i ddarparu yn unol â'n Datganiad Dull Coedamaeth.

A fydd unrhyw goed yn dod i lawr i wneud lle i'r gwaith?

A fyddant yn cael eu disodli?

Bydd rhai coed yn cael eu symud yn ystod y datblygu, a lle bo modd, byddwn yn ail-leoli unrhyw goed hyfyw ynghyd â'n cynlluniau ail-blannu a lliniaru cynefinoedd. Mae nifer o ffactorau'n penderfynu pa goed fydd yn disodli'r rhai a gwymrwyd, gan gynnwys hirhoedledd math y rhywogaeth, eu gallu i oddef newid hinsawdd a buddion eraill fel tynnu llygryddion sy'n gysylltiedig â diesel, llwch brêcs a gronynnau eraill sy'n gysylltiedig â ffyrdd a meysydd parcio. Er enghraifft, mae bedw arian a masarn bach yn adnabyddus am eu gallu i wrthsefyll llygredd i gefnogi bywyd gwyllt. Ategir y gwaith plannu coed ymhellach gan blannu isdyfiant gan gynnwys cyll, draen gwynion, ysgaw, cwytros, celyn a chriafol gyda glaswellt coetir a rhedyn yn ategu'r gofod rhwng y coed mwy o faint.

A yw ansawdd yr aer yn cael ei fonitro?

Ydy. Mae monitro Ansawdd Aer yn amod sy'n rhan o Ganiatâd Cynllunio Canolfan Ganer Felindre newydd. Yn wir, mae'n amod cynllunio safonol ar gyfer datblygiadau isadeiledd mawr fel y ganolfan newydd. Rydym yn monitro ansawdd aer yn yr ardal sy'n amgylchynu safle Canolfan Ganer Felindre newydd. Cyn y gwaith galluogi, rydym wedi bod yn casglu data i bennu darlenniadau sylfaenol. Gallwch ddarllen yr adroddiadau rydym wedi eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Faint o gerbydau fydd yn defnyddio'r ffyrdd yn yr Eglwys Newydd wrth alluogi gwaith?

Yn ystod y gwaith, disgwylir cyfartaledd o lai na 10 cerbyd HGV y dydd mewn perthynas â'r gwaith gwella cylchfannau yn Longwood Drive, ac uchafswm o 20 o gerbyd HGV adeiladu yn ystod unrhyw ddiwrnod ar gyfer y gwaith o adeiladu'r bont. Fel arfer, rhagwelir y bydd llai o ddanfoniadau na hyn. Mae gwybodaeth ynglŷn â'r traffig sy'n ymwneud â phrosiect Canolfan Ganser Felindre newydd wedi'i chynnwys yng Nghynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu sydd ar gael ar Borth Cynllunio Cyngor Caerdydd.

Sut byddwch chi'n ymgysylltu â ni?

Nawr bod gennym ddyluniad ar gyfer y ganolfan newydd, rydym hefyd yn trefnu cyfleoedd i chi gyfarfod â'r tîm a thrafod y cyfleoedd dylunio a'r rhaglen buddion cymunedol o fis Medi ymlaen. Byddant hefyd yn caniatáu i ni sicrhau ein bod yn cynllunio'r datblygiad gyda'ch pryderon a'ch anghenion mewn golwg, a mynd i'r afael â nhw cyn gynted â phosibl lle bo modd.

Sut ydych chi'n mynd i'n diweddaru?

Rydyn ni'n mynd i ddarparu cylchlythyrau electronig a chwarterol rheolaidd a fydd yn cael eu postio'n uniongyrchol i'r gymuned leol. Byddant yn nodi camau allweddol y gwaith a'r cynnydd a wnaed wrth ddatblygu Canolfan Ganser Felindre newydd a sut y gallwch gysylltu â ni. Bydd unrhyw ddiweddariadau brys yn cael eu cyfathrebu ar dudalennau Facebook a Twitter Velindre Matters, felly dilynwch nhw a defnyddio'r sianeli hyn er mwyn cadw'n wybodus.

Pwy ydw i'n cysylltu ag ef os hoffwn i gael rhagor o wybodaeth?

Efallai y bydd gennych gwestiynau pellach yr hoffech eu gofyn wrth i ni ddechrau'r gwaith. Os felly, cysylltwch â ni ar Cysylltu.Felindre@wales.nhs.uk.

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth, amynedd a chydweithrediad wrth i ni ddechrau'r gwaith ar Ganolfan Ganser Felindre newydd i ranbarth de-ddwyrain Cymru.

